



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



E-Log: Cwestiynau Cyffredin

I gael cymorth neu arweiniad technegol ar eich e-log cysylltwch â darparwr eich e-log.

1

Beth yw e-log?

Y llyfr log electronig (e-log) yw lle mae meistr cwch pysgod yn cadw cofnod o'r holl weithrediadau pysgota, gan gynnwys datganiadau glanio. Dylai'r e-log gasglu data ar weithgareddau pysgota'r cwch fesul taith, ac ar bob diwrnod o weithgarwch yn ystod y daith. Mae hyn yn cynnwys manylion y ddalfa yn ôl rhywogaeth a maint y ddalfa yn ogystal â gwybodaeth am sut a lle y cafodd y pysgod eu dal. Mae angen datganiad glanio ar gyfer pob taith sy'n rhoi gwybodaeth am bwysau a chyflwyniad y pysgod sy'n cael eu glanio fesul rhywogaeth.

2

Pwy sy'n gyfrifol am gwblhau a chyflwyno'r e-log a datganiadau glanio?

Perchennog y cwch a'r meistr sy'n rheoli'r cwch ar adeg unrhyw un daith sy'n gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod llyfr log cywir yn cael ei gwblhau ar gyfer y daith honno. Y perchennog a'r meistr hefyd sy'n gyfrifol ar y cyd am sicrhau bod datganiad glanio cywir yn cael ei gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer pob taith.

3

Pryd dylai e-log gael ei gwblhau a'i gyflwyno i Llywodraeth Cymru?

Dylai e-log gael ei gwblhau ar gyfer pob taith a wneir gan gwch pysgota wedi'i gofrestru'n fasnachol ar adeg gadael y porthladd (DEP), hyd at a chan gynnwys adeg dychwelyd i'r porthladd (RTP). Dylid diweddarau'r llyfr log drwy gydol y daith, gydag FAR (Adroddiad Gweithgareddau Pysgota) yn cael ei gyflwyno erbyn hanner nos bob diwrnod y mae gweithgareddau pysgota'n cael eu cynnal. Dylid hefyd gyflwyno FAR ar gais gan Swyddog Gorfodi Morol yn ystod arolygiad.

Dylid cwblhau'r datganiad glanio ar ôl ichi lanio eich dalfa, pan fydd gennych bwysau cywir ar gyfer pob rhywogaeth wedi'i glanio. Rhaid cyflwyno'r datganiad glanio o fewn 24 awr i'r glanio.

4

Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn e-log?

Dylai pob cwch o Gymru sy'n pysgota yn nyfroedd y DU gofnodi'r wybodaeth ganlynol:

- Gadael y porthladd (DEP)
- Adroddiad Gweithgareddau Pysgota (FAR)
- Pysgod a waredwyd (DIS)
- Dalfa wrth gyrraedd (COE) a dalfa wrth adael (COX) os yw hynny'n berthnasol
- Hysbysu am amser cyrraedd ymlaen llaw (PNO) os yw hynny'n berthnasol
- Adroddiad diwedd pysgota (EOF)
- Dychwelyd i'r porthladd (RTP)
- Datganiad glanio (LAN)

Mae rhagor o fanylion ynglŷn â'r data sydd ei angen ynghyd â sut a phryd y dylid cyflwyno'r data hwn ar wefan gov.uk yma: www.gov.uk/government/publications/how-to-report-fishing-activities-using-an-electronic-logbook-software-system/elss-reports

5

Pysgota y tu allan i ddyfroedd y DU

Mae rhai cychod o Gymru yn gweithredu y tu allan i ddyfroedd y DU – e.e. yn ardaloedd Sefydliad Rheoli Pysgodfeydd Rhanbarthol (RFMO) fel Sefydliad Pysgodfeydd Gogledd-orllewin yr Iwerydd (NAFO), neu Gomisiwn Pysgodfeydd Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd (NEAFC), neu ddyfroedd trydedd wlad fel Norwy. Pan fyddwch yn pysgota yn yr ardaloedd hyn, mae'n bosibl y bydd gofynion ychwanegol mewn perthynas â chyflwyno e-log, a dylech sicrhau eich bod yn ymwybodol o'r rhain cyn cynnal unrhyw weithgareddau pysgota. Mae rhagor o wybodaeth am y gofynion hyn ar wefan Europa yma: www.ec.europa.eu/fisheries/cfp/international/rfmo_en

6

Beth dylwn ei wneud os wy'n gwneud camgymeriad wrth gwblhau fy e-log?

Os ydych yn sylweddoli eich bod wedi gwneud camgymeriad pan fyddwch yn dal i fod ar y môr, ar yr un daith, cewch anfon cywiriad. Y cyfan mae angen ei wneud yw diwygio'r cofnod a'i ailanfon. Bydd eich e-log yn cofnodi hyn fel neges 'cywiro'. Dim ond yn ystod y daith y cewch gywiro negeseuon blaenorol – ni fyddwch yn gallu cywiro negeseuon blaenorol.

Os ydych yn sylweddoli eich bod wedi gwneud camgymeriad ar ôl i daith ddod i ben, cysylltwch â'r Swyddfa Pysgodfeydd yn Aberdaugleddau **03000 253500** gyda'r manylion.

7

Pa wybodaeth y dylid ei chynnwys mewn datganiad glanio?

Rhaid i'r datganiad glanio gynnwys gwybodaeth am y glanio (dyddiad, amser a lleoliad) a manylion yr holl rywogaethau wedi'u glanio (pwysau, cyflwyniad, cyflwr) gan gynnwys rhywogaethau nad ydynt yn cael eu gwerthu.

Caiff meistr y cwch neu ei gynrychiolydd gyflwyno'r datganiad glanio. Yn ogystal, nid oes rhaid cyflwyno'r datganiad glanio drwy'r e-log, gellir ei gyflwyno drwy'r Fishhub. I drefnu cyfrif ar gyfer y Fishhub cysylltwch â'r Swyddfa Pysgodfeydd yn Aberdaugleddau ar **03000 253500**.

Rhaid gyflwyno datganiadau glanio i Lywodraeth Cymru o fewn **24 awr** i adeg y glanio, fan bellaf.

8

Sut mae'r wybodaeth rwy'n ei chyflwyno mewn e-log a datganiad glanio'n cael ei defnyddio?

Mae'r data rydych yn ei ddarparu'n rhoi'r dystiolaeth sydd ei hangen ar Lywodraeth Cymru i wneud y penderfyniadau cywir mewn perthynas â chynaliadwyedd stociau pysgod a'r diwydiant bwyd môr. Mae hyn yn cynnwys rheoli cwoâtâu, mesurau cadwraeth a dyfarnu cyllid grant.

Mae bellach yn bwysicach byth ar gyfer allforion pysgod, gan y bydd unrhyw dystysgrifau dalfa ar gyfer cynhyrchion pysgodfeydd sy'n cael eu hallforio yn cael eu dilysu gan y pysgotwr a'r masnachwr. Mae'n hanfodol bod y data, gan gynnwys dyddiad y glanio, yn cael ei gofnodi'n gywir ar e-log a datganiad glanio.

9

Beth fydd yn digwydd os nad wyf yn cyflwyno e-log a datganiad glanio mewn pryd?

Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn derbyn y data sydd ei angen arni i sicrhau rheoli cynaliadwy ac i sicrhau y gellir olrhain eich pysgod a dangos eu bod yn dod o ffynhonnell gynaliadwy. Gallai hyn gynnwys ein gallu i ddilysu pysgod sy'n cael eu hallforio i wledydd yr CE. Gan fod hwn yn ofyniad cyfreithiol, mae hefyd yn bosibl y gellid cymryd camau gorfodi yn eich erbyn.

Adnoddau Defnyddiol:

Canolfan Monitro Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru:

Ffôn: 03000 253500

E-bost: milfordhavenfisheriesoffice@llyw.cymru

UKFMC:

Ffôn: 0131 271 9700

E-bost: UKFMC@gov.scot

Canllawiau ar adroddiadau ELSS

www.gov.uk/government/publications/how-to-report-fishing-activities-using-an-electronic-logbook-software-system/elss-reports